

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn gwrandawriad 13 – Sipsiwn a Theithwyr



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Pwynt Gweithredu S13/PG1 – Safle Sipsiwn, Llandygai

1] Mater dan ystyriaeth

Paratoi papur i roi gwybodaeth am yr ystyriaethau cynllunio perthnasol yn gysylltiedig ag ymestyn y safle presennol, sydd wrth ymyl stad ddiwydiannol, e.e. materion sŵn, mesurau lliniaru os oes angen.

2] Ymateb y Cynghorau

2.1 Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio i ymestyn safle presennol ar gyfer Sipsiwn, ger Llandygai er mwyn cyfarch y galw am leiniau preswyl parhaol sydd wedi cael ei adnabod yn yr Astudiaeth Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf.

2.2 Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn briodol i ddarparu lleiniau ychwanegol ar safle a fydd yn ffurfio estyniad i'r safle preswyl parhaol oherwydd (i) bydd y lleiniau yn cyfarch galw yn sydd wedi cael ei adnabod gan deuluoedd sy'n byw ar y safle parhaol cyfagos yn barod, a (ii) bod y safle arfaethedig wedi cael ei ddefnyddio i'r perwyl yma yn y gorffennol. Mae Atodiad 1 i'r papur yma yn cynnwys lluniau yn dangos olion yr isadeiledd sydd yn dal ar ôl ar y safle. Bu'n rhaid cau'r rhan sy'n destun dynodiad yn y Cynllun ac a fydd yn destun cais cynllunio yn fuan oherwydd achosion o wrthdaro rhwng meddianwyr y lleiniau parhaol a'r Theithwyr oedd yn aros ar y lleiniau eraill. Codwyd wal i sicrhau na fyddai hen rhan y safle yn cael ei ddefnyddio heb ganiatâd.

2.3 Penodwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i baratoi cynllun ar gyfer y safle er mwyn sicrhau bydd y safle yn dderbyniol i'r trigolion ac i gymunedau sefydlog. Er mwyn gwneud hynny, mae'r cwmni yn dilyn egwyddorion dylunio cynhwysfawr sy'n cael eu hadnabod yng nghanllawiau dylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (2015) gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae'r gwaith yn rhoi sylw i'r canlynol:

- addasrwydd y tir;
- sicrhau bod lleiniau yn ddigonol ar gyfer y cerbydau ac adeiladau atodol;
- angen llinell derfyn glir i ymylon y safle;
- defnyddiau tir cyfagos;
- rhoi sylw i ddiogelwch a gwarchodaeth plant;
- preifatrwydd a diogelwch i'r trigolion;
- digon o le i symud cerbydau mawr i'r safle ac o gwmpas y safle;

- terfynau yn gweddu'r ardal leol;
- cyfleoedd tirlunio.

2.4 O ran addasrwydd y safle, nid yw du mewn i barth risg llifogydd. Mae arolwg safle wedi dangos nad allir datblygu strised bach ar ymyl de – orllewinol y safle oherwydd setliad ddaear.

2.5 Mae'r Uned Rheolaeth Tai wedi bod yn trafod cynlluniau posib gyda thrigolion y lleiniau preswyl parhaol a gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun wedi bod yn cael ei newid er mwyn adlewyrchu'r trafodaethau yma.

2.6 Hyd yma, mae'n fwriad i osod lon y stad ar hyd ymyl ffiniau'r safle arfaethedig a'r stad ddiwydiannol. Yn ogystal â hynny, bydd ffens galed yn cael ei chodi ar hyd ymyl y rhan yma o lon y stad. Bydd adeiladu lon y stad yn darparu bwlch priodol rhwng y lleiniau preswyl a'r stad ddiwydiannol. Bydd hynny yn ogystal â'r ffens galed yn lliniaru effeithiau swm o'r stad ddiwydiannol. Bydd y ffens hefyd yn rhoi preifatrwydd i drigolion y lleiniau preswyl, ac yn cynorthwyo i sicrhau diogelwch y trigolion (trwy wahardd unigolion rhag crwydro i safle Sipsiwn a gwahardd trigolion, yn enwedig plant, rhag crwydro i'r stad ddiwydiannol). Nid oes bwriad i osod ffens galed ar hyd ymylon gweddill y safle oherwydd: gwahanol lefelau tir; dim datblygiad cyfagos; ac i gael cydbwysedd rhwng sicrhau ffiniau a chynnal amgylchedd dymunol ac agored ar y safle.

2.7 Bwriedir cynnwys llecyn chwarae i blant sydd o fewn golwg mwyafrif trigolion y safle.

2.8 Anelir i osod cyn gymaint â phosib o'r lleiniau'n ar ffurf cylch er mwyn cynnal ymdeimlad o gymuned, ond ni fydd posib gwneud hynny ar draws y safle oherwydd ei siap.

2.9 Bydd strised ar hyd ymyl de – orllewinol y safle yn cael ei adael yn wag a'i dirlunio.

2.10 O ran camau nesaf a'r amserlen:

- ymgynghori gyda thrigolion y lleiniau preswyl parhaol cyfredol am y cynllun drafft;
- cwblhau cynllun terfynol a fydd wedi'i gostio;
- ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru;
- cyflwyno cais cynllunio – Rhagfyr 2016
- cyflwyno cais am grant gan Lywodraeth Cymru – Chwefror 2017
- datblygu gwedd cyntaf – 2017/ 2018
- datblygu'r ail wedd – 2018/ 2019



















